**Rhif: WG50415**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Bil Seilwaith (Cymru)

Ffioedd am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau cydsyniad seilwaith

Medi 2024

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-611-3

# Tabl Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Ymatebion | 3 |
| 3. | Crynodeb o'r ymatebion | 5 |


## Atodiad


A. Rhestr o'r ymatebwyr yn ôl categori

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori 'Bil Seilwaith (Cymru): Ffioedd am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau cydsyniad seilwaith' ar 13 Mai 2024 ac roedd yn agored i ymatebion tan 22 Gorffennaf 2024.

1.2 Roedd 20 o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, a darparwyd ffurflen safonol er mwyn hwyluso'r broses ymateb. Gwnaed sylwadau y tu allan i'r cwestiynau safonol hefyd.

1.3 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Mae wedi'i rhannu'n ddwy adran bellach.

1.4 Mae adran 2 yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad ynghyd â manylion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.

1.5 Mae adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gafwyd. Mae hyn yn cynnwys:

- Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad;
- Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad, lle y bu modd llunio ystadegau;
- Crynodeb a dadansoddiad o'r prif themâu a gododd ym mhob cwestiwn;
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad hwnnw;
- Esboniad o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dilyn yr ymateb i bob cwestiwn.

1.6 Wrth ystyried yr ymatebion, rydym yn cydnabod bod nifer o'r rhain wedi cynnig ymatebion emosiynol ar gynlluniau unigol ac effeithiau personol neu gymunedol. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi a chrynhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ni fydd yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- **Ceisiadau am eglurder ynghylch materion manwl:** Cynhelir ymgynghoriad arall yn fuan lle rhoddir eglurder pellach. Pan ddaw'r prosesau newydd i rym, y bwriad yw y cânt eu hategu gan ganllaw. Bydd y canllaw hwnnw hefyd yn egluro materion manwl a godwyd yn y papur ymgynghori hwn;

- **Sylwadau ar achosion neu benderfyniadau unigol sydd gerbron Gweinidogion Cymru neu a wnaed ganddynt:** O ystyried rôl statudol Gweinidogion Cymru yn y broses gynllunio nid yw'n bosibl iddynt hwy, nac unrhyw un arall yn Llywodraeth Cymru, wneud sylwadau ar benderfyniad y maent yn rhan ohono, neu y gallent fod yn rhan ohono. Gallai hynny niweidio sefyllfa Llywodraeth Cymru;

- **Materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad:** Lle mae sylwadau wedi'u gwneud sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn ond cawsant eu gwneud mewn perthynas â materion y tu allan i gwmpas y cwestiwn, rydym wedi gwneud pob ymdrech i'w crynhoi o dan y cwestiwn cywir. Fodd bynnag, nid ydym wedi ymdrin â chwestiynau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn;

- **Sylwadau sy'n dehongli'r polisi arfaethedig a'r ddeddfwriaeth bresennol yn anghywir:** Mae ymatebion wedi dod i law sy'n gofyn am newidiadau i bolisi sydd, mewn gwirionedd, naill ai'n adlewyrchu'r bwriadau a nodwyd yn y papur ymgynghori neu'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth bresennol na fydd yn cael ei newid.

## 2. Ymatebion

2.1 Ar 13 Mai 2024, cafodd dros 200 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, eu hysbysu drwy e-bost fod y papur ymgynghori wedi'i gyhoeddi. Lluniwyd y rhestr hon o randdeiliaid o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhestr ymgynghori benodol a ddelir gan dîm y Bil Seilwaith. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod lleol yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau â buddiant arbennig a grwpiau eraill. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru.

2.2 Cafwyd 30 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu darllen a'u hystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

2.3 Darparwyd ffurflen ymgynghori ar wahân ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r ymatebwyr neilltuo eu hunain i un o chwe grŵp eang o ymatebwyr. Mae Tabl 1 isod yn dangos y dadansoddiad o'r ymatebwyr.

**Tabl 1 – Dadansoddiad o'r Ymatebwyr**

| Categori | Nifer | % o'r cyfanswm[1] |
|---|---|---|
| Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 10 | 33% |
| Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 10% |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 7% |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 4 | 13% |
| Y Sector Gwirfoddol | 4 | 13% |
| Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 7 | 23% |
| **Cyfanswm** | **30** | |

[1] Efallai na fydd y cyfansymiau'n symio am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu

2.4 Roedd cwestiynau 1 i 18 yn yr ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau polisi-benodol. Roedd y cwestiynau yn gofyn am ymateb cadarnhaol, ymateb negyddol neu ymateb cadarnhaol yn amodol ar sylwadau. Roedd y cwestiynau hyn hefyd yn cynnig opsiwn i ymhelaethu ymhellach ar atebion.

2.5 Roedd cwestiynau 19 ac 20 yn yr ymgynghoriad yn ymwneud yn benodol â'r effaith bosibl (cadarnhaol neu negyddol) y gall y cynigion ei chael ar y Gymraeg.

2.6 Ceir trosolwg ystadegol o'r ymatebion, gan ddangos natur yr ymatebion i'r cwestiynau, fel rhan o'r dadansoddiad i bob cwestiwn yn adran 3 o'r ddogfen hon. Pan na wnaeth ymatebwyr nodi ateb penodol, cafodd y rhain eu hystyried a'u cofnodi fel 'ddim yn gwybod'.

2.7 Ceir rhestr o'r ymatebwyr a'r categorïau y cawsant eu neilltuo iddynt yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Lle mae ymatebwyr wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi eu manylion, byddant yn ymddangos fel "Dienw" o dan y categori priodol, ac eithrio unigolion preifat, y bydd pob un ohonynt yn ymddangos fel "Dienw" er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## 3. Crynodeb o'r ymatebion

| | |
|---|---|
| **C1** | A ydych yn cytuno y dylai'r Bil weithredu ar sail adennill costau llawn? Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt. |

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 4 | 6 | 0 | 0 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 4 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 5 | 2 | 0 | 0 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **20** | **10** | **0** | **0** | **30** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **30** | **0** |
| **Canran Gyffredinol** | **100%** | **0%** |

<u>Adolygiad ystadegol</u>

3.1 Roedd pob ymatebydd yn cefnogi egwyddor adennill costau llawn. Gwnaeth 100% o'r ymatebwyr ddewis naill ai ‘Ydw’ neu ‘Ydw (yn amodol ar sylwadau)’ mewn ymateb i'r cwestiwn.

Themâu allweddol

3.2 Er bod yr holl ymatebwyr yn cytuno ag egwyddor adennill costau, codwyd sylwadau ychwanegol gan ymatebwyr, wedi'u grwpio o dan y prif themâu canlynol:

- Dylai system adennill costau llawn roi sail ar gyfer rhoi adnoddau gwell i randdeiliaid, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu cynlluniau priodol drwy gyngor gwell a lleihau oedi;

- Dylai prosesau adennill costau gael eu cyfyngu i bartïon penodol a thasgau penodol;

- Mynegwyd pryderon ynglŷn â dyblygu ffioedd;

- Roedd dau ymatebydd o'r farn y dylai system adennill ffioedd fod yn gymwys i drigolion lleol a chaniatáu ar gyfer difrod i dirweddau a diwylliant.

Ymateb y Llywodraeth

3.3 Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r egwyddor adennill costau llawn fel y'i cefnogwyd gan bob ymatebydd. Rydym yn cytuno y bydd hyn yn helpu i wella adnoddau i randdeiliaid a byddwn yn disgwyl gweld gwelliant o ran y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

3.4 Er y cydnabyddir effaith gwaith datblygu ar bobl leol, mae ad-dalu costau i bobl leol y tu hwnt i gylch gwaith y system gynllunio.

| C2 | A ydych yn cytuno y dylai ffioedd allu ystyried ffactorau megis chwyddiant? Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt. |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 2 | 3 | 2 | 3 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 2 | 0 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **14** | **7** | **2** | **7** | **30** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **21** | **2** |
| **Canran Gyffredinol** | **91%** | **9%** |

Adolygiad ystadegol

3.5 O blith yr ymatebwyr hynny a atebodd naill ai 'Ydw', 'Ydw (yn amodol ar sylwadau)' neu 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd 91% yn cytuno â'r cynnig i ffioedd ystyried ffactorau megis chwyddiant. Cymysg fu'r ymatebion ymhlith grwpiau o ymatebwyr. Nododd saith ymatebydd 'Ddim yn gwybod' fel eu hymateb.

Themâu allweddol

3.6 Cafwyd cytundeb cyffredinol â'r egwyddor y dylai ffioedd gynyddu yn unol â chwyddiant. Roedd y sylwadau a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

- Oni bai fod ffioedd yn cynyddu yn unol â chwyddiant, dim ond yn rhannol y byddai ffioedd yn adennill costau;
- Dylai ffioedd barhau i adlewyrchu cost darparu gwasanaethau a swyddogaethau mewn termau real;
- Roedd ymatebwyr eraill o'r farn, yn hytrach na chwyddiant, y dylai ffioedd gael eu diweddaru yn unol ag amserlen a methodoleg dryloyw a bennwyd ymlaen llaw, neu y dylid eu hadolygu'n rheolaidd;
- Gwnaed sylwadau eraill mewn perthynas â ffioedd, gan gynnwys darpariaeth i bobl leol er mwyn talu ffioedd cyfreithiol a digolledu ariannol, a materion eraill y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad.

Ymateb y Llywodraeth

3.7 Mae cytundeb y dylid cynyddu ffioedd yn rheolaidd, er nad oedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r defnydd o chwyddiant fel sail ar gyfer hyn. Gan fod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn cael ei lunio yn unol â safonau rhyngwladol ac yn seiliedig ar reoliadau Ewropeaidd ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr wedi'i Gysoni, rydym felly'n ystyried defnyddio CPI am ei fod yn ddull dibynadwy o sicrhau bod ffioedd yn gyfredol.

| C3 | A ydych yn cytuno y dylai ffioedd amrywio yn dibynnu ar faint, graddfa a lleoliad datblygiadau arfaethedig?<br>Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt. |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 1 | 2 | 5 | 2 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 1 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 3 | 0 | 0 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 0 | 3 | 1 | 3 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **7** | **10** | **7** | **6** | **30** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **17** | **7** |
| **Canran Gyffredinol** | **71%** | **29%** |

Adolygiad ystadegol

3.8 O blith yr ymatebwyr hynny a atebodd naill ai 'Ydw', 'Ydw (yn amodol ar sylwadau)' neu 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd 71% yn cytuno â'r cynnig y dylai ffioedd amrywio yn dibynnu ar faint, graddfa a lleoliad.

Cymysg fu'r ymatebion ymhlith grwpiau o ymatebwyr. Nododd chwe ymatebydd ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb.

Themâu allweddol

3.9 Cafwyd cytundeb cyffredinol ag amrywio ffioedd yn dibynnu ar faint, graddfa a lleoliad. Cafwyd y sylwadau ychwanegol canlynol gan ymatebwyr:

- Nid yw cymhlethdod na lefel y mewnbwn sydd ei hangen gan ymgyngoreion statudol o reidrwydd yn gysylltiedig â maint, graddfa neu leoliad prosiect;
- Mae cymhlethdod yn seiliedig ar y math o gysyniad(au) y gwneir cais amdano/amdanynt a hyd a natur yr archwiliad;
- Gall fod canlyniadau anfwriadol pe bai ffioedd yn cael eu hamrywio yn unol â lleoliad, gan arwain at duedd ddaearyddol mewn ceisiadau;
- Dylai ffioedd adlewyrchu'r amser a'r adnoddau a ddefnyddiwyd, gan gysylltu â'r egwyddor adennill costau llawn;
- Ni ddylai ffioedd amrywio yn dibynnu ar leoliad gan fod y broses yr un peth ni waeth ble y mae prosiect wedi'i leoli.

Ymateb y Llywodraeth

3.10 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r cytundeb cyffredinol gan ymatebwyr y dylai ffioedd amrywio yn dibynnu ar faint, graddfa a lleoliad. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn awgrymu y gall ffactorau eraill gael effaith ar gostau partïon hefyd.

| C4 | A ydych yn cytuno y dylai ffioedd ddarparu dull adennill os na ddarperir y gwasanaeth?<br>Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt. |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 2 | 4 | 1 | 3 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 2 | 0 | 0 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 0 | 2 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 2 | 1 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **9** | **11** | **4** | **6** | **30** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **18** | **4** |
| **Canran Gyffredinol** | **82%** | **18%** |

Adolygiad ystadegol

3.11 O blith yr ymatebwyr hynny a atebodd naill ai 'Ydw', 'Ydw (yn amodol ar sylwadau)' neu 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd 82% yn cytuno â'r cynnig i ffioedd gynnwys dull adennill os na ddarperir gwasanaeth.

Cymysg fu'r ymatebion a nododd chwe ymatebydd ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb.

Themâu allweddol

3.12 Roedd llawer o ymatebion yn ymwneud ag adennill costau llawn y system yn ei chyfanrwydd yn hytrach nag ad-dalu ffi pe na bai gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, roedd cytundeb cyffredinol ag egwyddor dull adennill ar gyfer ffioedd os nad yw gwasanaeth wedi cael ei ddarparu. Cafwyd y sylwadau ychwanegol canlynol gan ymatebwyr:

- Mae ad-daliadau yn ddull amrwd ac maent yn arwain at bwysau i benderfynu o fewn terfyn amser penodol, yn hytrach na chyflawni canlyniadau cadarnhaol neu o safon;

- Ni ddylai costau yr aethpwyd iddynt eisoes gael eu had-dalu;

- Ni ddylai ad-daliadau fod yn gymwys ar ôl i Adroddiad ar yr Effaith Leol gael ei gyflwyno;

- Dylai dulliau adennill fod yn gymesur ac ni ddylent waethygu'r problemau presennol o ran adnoddau.

Ymateb y Llywodraeth

3.13 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion a'r cytundeb cyffredinol gan ymatebwyr y dylai fod dull adennill ar gyfer ffioedd lle na chaiff gwasanaeth ei ddarparu. Y bwriad yw y bydd y system yn cynnwys dull adennill o dan rai amgylchiadau. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod angen cyfnod sefydlu gan ei bod yn system newydd. Ar y sail hon, byddwn yn monitro perfformiad ac yn ystyried a yw dull adennill yn briodol.

| C5 | A oes gennych unrhyw sylwadau ar ffioedd lleol a chenedlaethol?<br>Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich safbwynt. |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Oes | Oes (yn amodol ar sylwadau) | Nac oes | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 0 | 8 | 0 | 2 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 0 | 1 | 0 | 2 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 0 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 2 | 0 | 1 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 0 | 3 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 3 | 1 | 1 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **3** | **15** | **5** | **7** | **30** |

<u>Themâu allweddol</u>

3.14 Cafwyd anghytundeb cyffredinol ag egwyddor ffioedd lleol. Cafwyd y sylwadau ychwanegol canlynol gan ymatebwyr:

- Roedd ffioedd cenedlaethol yn ddymunol o ran sicrhau cysondeb a thryloywder;
- Byddai ffioedd cenedlaethol yn unol â'r holl ffioedd cynllunio statudol eraill;
- Byddai ffioedd cenedlaethol yn sicrhau chwarae teg ledled Cymru ac ni fyddai hynny'n wir pe bai ffioedd yn cael eu pennu'n lleol;
- Byddai ffioedd lleol yn peri dryswch lle mae cynlluniau yn croesi ffiniau Awdurdodau Cynllunio Lleol.

| C6 | A oes angen gosod mesurau diogelu ar system ffioedd a bennir yn lleol (e.e. ymgynghori ar lefel ffi arfaethedig, adrodd ar berfformiad)? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Oes | Oes (yn amodol ar sylwadau) | Nac oes | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 3 | 2 | 1 | 4 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 0 | 1 | 0 | 2 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 1 | 0 | 2 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 3 | 1 | 1 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **10** | **8** | **2** | **10** | **30** |

| | Oes/Oes (yn amodol ar sylwadau) | Nac oes |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **18** | **2** |
| **Canran Gyffredinol** | **90%** | **10%** |

Adolygiad ystadegol

3.15 O blith yr ymatebwyr hynny a atebodd naill ai ‘Oes’, ‘Oes (yn amodol ar sylwadau)’ neu ‘Nac oes’ i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd 90% yn cytuno bod angen gosod mesurau diogelu ar system ffioedd leol. Cymysg fu'r ymatebion a nododd deg ymatebydd ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb.

Themâu allweddol

3.16 Nododd llawer o'r ymatebwyr eu hanghytundeb cyffredinol ag egwyddor ffioedd lleol eto. Fodd bynnag, cafwyd rhai sylwadau ychwanegol mewn perthynas â mesurau diogelu, fel a ganlyn:

- Byddai mesurau diogelu yn atal Awdurdodau Cynllunio Lleol rhag codi symiau gwahanol;
- Ymddengys fod mesurau diogelu o fudd er mwyn sicrhau rhesymoldeb a thryloywder;
- Byddai darparu mesurau diogelu yn creu llwyth gwaith ychwanegol ac nid ystyrir bod hyn yn ddefnyddiol nac yn effeithiol;
- Byddai angen ymgynghori ar ffioedd lleol a byddai hyn yn amharu ar y gallu i ddarparu gwasanaethau o dan y drefn newydd.

Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 5 a 6

3.17 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion, a'r anghytundeb cyffredinol ymhlith ymatebwyr ynglŷn â phennu ffioedd yn lleol. Tystiolaeth gyfyngedig a gafwyd i ategu'r safbwynt, neu sut y gellid sefydlu system ffioedd genedlaethol.

3.18 Er bod cefnogaeth o blaid system ffioedd genedlaethol, ystyrir y byddai system ffioedd leol yn ymdrin â llawer o'r materion a godwyd gan ymatebwyr i gwestiynau eraill. Roedd pob ymatebydd o'r farn y dylai'r system ffioedd ddarparu ar gyfer adennill costau yng nghwestiwn un. Sicrheir bod costau yn cael eu hadennill pan gyfrifir am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth drwy'r system. Mae ffi a bennir yn lleol yn darparu hyn oherwydd bod cyrff unigol yn gallu nodi'r costau penodol yr eir iddynt gan gyrff gwahanol a rhoi cyfrif amdanynt. Roedd ymatebwyr yn bryderus y dylai ffioedd ystyried maint, graddfa, lleoliad a chymhlethdod datblygiad arfaethedig yng nghwestiwn tri. Byddai ffi a bennir yn lleol yn galluogi corff i ystyried y ffactorau hyn.

3.19 Mewn ymateb i gwestiwn 5, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai ffi genedlaethol yn dryloyw. Ystyrir y gellir sicrhau tryloywder drwy fesurau diogelu ar system ffioedd leol. Ar y sail hon, dyma'r dull a ffefrir o gyfrifo ffioedd ar hyn o bryd.

| C7 | A ydych yn cytuno y dylid codi ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais?<br>Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt. |
|---|---|

**Crynodeb Ystadegol**

| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 5 | 4 | 0 | 1 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 5 | 0 | 1 | 1 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **20** | **6** | **1** | **3** | **30** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **26** | **1** |
| **Canran Gyffredinol** | **96%** | **4%** |

<u>Adolygiad ystadegol</u>

3.20 O blith yr ymatebwyr hynny a atebodd naill ai ‘Ydw’, ‘Ydw (yn amodol ar sylwadau)’ neu ‘Nac ydw’ i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, dim ond un

person oedd yn anghytuno y dylid codi tâl am wasanaethau cyn gwneud cais. Nododd tri ymatebydd 'Ddim yn gwybod' fel eu hymateb.

Themâu allweddol

3.21 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylid codi tâl am wasanaethau cyn gwneud cais. Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol a gellir eu grwpio fel a ganlyn:

- Dylai ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais fod yn seiliedig ar berfformiad neu lefel y gwasanaeth a geir;

- Rhaid i ffioedd fod ar lefel sy'n golygu y gellir adennill costau llawn, gan adlewyrchu natur a chymhlethdod prosiectau a chwmpasu'r adnoddau gofynnol;

- Dylai ffioedd amrywio er mwyn adlewyrchu lefelau gwahanol y gweithgarwch ymgysylltu sydd ei angen ar gyfer gwahanol fathau o brosiectau seilwaith;

- Cafwyd sylwadau eraill yn ymwneud â'r math o wasanaethau cyn gwneud cais y dylid eu cynnig neu eu cynnwys.

Ymateb y Llywodraeth

3.22 Bwriedir i ffioedd gael eu pennu ar lefel sy'n briodol i'r gwaith a wneir gan y rhai sy'n gysylltiedig â'r broses gwneud cais, gan gynnwys ar y cam cyn gwneud cais. Rydym yn disgwyl i wasanaethau fod yn seiliedig ar system safonol gydag ymateb ac amserlen benodedig. Mae'r system ffioedd wedi'i chynllunio i sicrhau y caiff y gofynion hyn eu bodloni.

| | |
|---|---|
| **C9** | A ydych yn cytuno y dylai ffioedd gwneud cais fod yn sefydlog ac yn amrywiadwy? Er enghraifft, gallai ffi sefydlog gael ei thalu pan gyflwynir cais a gallai ffi amrywiadwy gael ei thalu mewn perthynas â hyd a chymhlethdod yr archwiliad. |

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 1 | 4 | 2 | 3 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 1 | 0 | 3 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **13** | **7** | **2** | **8** | **30** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **20** | **2** |
| **Canran Gyffredinol** | **91%** | **9%** |

| **C10** | A ydych yn cytuno y dylai ffioedd archwilio fod yn amrywiadwy? (h.y. cyfraddau dyddiol)<br>Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt. |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 2 | 4 | 2 | 2 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 2 | 0 | 0 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 4 | 0 | 0 | 3 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **12** | **9** | **2** | **7** | **30** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **21** | **2** |
| **Canran Gyffredinol** | **91%** | **9%** |

| C13 | A ydych yn cytuno y dylai fod ffi am benderfynu ar orchymyn cydsyniad seilwaith? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 2 | 0 | 5 | 3 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 0 | 1 | 1 | 2 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 1 | 1 | 3 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **11** | **3** | **7** | **9** | **30** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **14** | **7** |
| **Canran Gyffredinol** | **67%** | **33%** |

Adolygiad ystadegol

3.23 Mewn ymateb i Gwestiwn 9, roedd 91% yn cytuno y dylai ffioedd gwneud cais fod yn sefydlog ac yn amrywiadwy. Cymysg fu'r ymatebion a nododd wyth ymatebydd 'Ddim yn gwybod' fel eu hymateb.

3.24 Mewn ymateb i Gwestiwn 10, roedd 91% yn cytuno y dylai ffioedd archwilio fod yn amrywiadwy. Nododd saith ymatebydd ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb.

3.25 Mewn ymateb i Gwestiwn 13, roedd 67% yn cytuno y dylai fod ffi am benderfynu ar gydsyniad seilwaith. Cymysg fu'r ymatebion gan fod naw ymatebydd wedi rhoi ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb a dewisodd saith ymatebydd ‘Nac ydw’.

Themâu allweddol

*Ffioedd Sefydlog ac Amrywiadwy*

3.26 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylid codi ffioedd sefydlog ac amrywiadwy mewn perthynas â cheisiadau. Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol, fel a ganlyn:

- Mae ffioedd amrywiadwy yn effeithio ar waith cynllunio ariannol prosiectau;
- Dylai ffioedd fod yn gymesur ag ardal, maint a graddfa datblygiad a'r amser a dreulir yn archwilio datblygiadau o feintiau amrywiol;
- Dylai fod gan ffioedd uchafswm tâl er mwyn rhoi sicrwydd i ymgeiswyr.

*Ffioedd Archwilio*

3.27 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai ffioedd archwilio fod yn amrywiadwy. Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol, fel a ganlyn:

- Dylai ffioedd gwmpasu archwiliadau hwy lle yr eir i fwy o gostau;
- Dylai fod modd adennill ffioedd am bresenoldeb swyddogion mewn digwyddiadau archwilio;
- Dylai fod modd i ymgyngoreion statudol adennill costau mewn archwiliadau;
- Roedd ffioedd amrywiadwy ar gyfer archwilio yn creu problemau o ran gwaith cynllunio ariannol prosiectau.

*Ffi Benderfynu*

3.28 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn anghytuno â chodi ffi benderfynu ar gyfer cydsyniad seilwaith. Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol, gan gynnwys y canlynol:

- Dylai ffioedd sy'n gysylltiedig â phenderfynu gael eu cwmpasu gan ffioedd am wneud cais ac archwilio;

- Nid dyma'r cynsail mewn deddfwriaeth gynllunio arall ac mae'n awgrymu bod caniatâd cynllunio yn cael ei ‘brynu’.

Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 9, 10 ac 13

3.29 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion, a'r cytundeb cyffredinol gan ymatebwyr y dylai ffioedd gwneud cais fod yn amrywiadwy ac yn sefydlog. At hynny, nodir y cytundeb cyffredinol y dylid codi ffioedd amrywiadwy am archwilio. Nodir anghytundeb cyffredinol ymatebwyr ynglŷn â chodi ffi benderfynu hefyd.

3.30 Caiff ffioedd am wneud cais ac archwilio eu hystyried ymhellach yn strwythur ffioedd Deddf Seilwaith (Cymru) 2024.

| **C11** | A ydych yn cytuno y dylai ACLlau a Cyfoeth Naturiol Cymru gael ffi am gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 4 | 1 | 2 | 3 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 2 | 0 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **15** | **6** | **2** | **7** | **30** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **21** | **2** |
| **Canran Gyffredinol** | **91%** | **9%** |

Adolygiad ystadegol

3.31 O blith yr ymatebwyr hynny a atebodd naill ai 'Ydw', 'Ydw (yn amodol ar sylwadau)' neu 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd 91% yn cytuno y dylai ACLlau a Cyfoeth Naturiol Cymru gael ffi am gyflwyno

Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol. Nododd saith ymatebydd ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb.

Themâu allweddol

3.32 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai ffi fod yn gysylltiedig â chyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol. Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol, gan gynnwys y canlynol:

- Roedd un ymatebydd yn anghytuno a nododd y dylai'r ffi hon fod yn rhan o Gytundeb Perfformiad Cynllunio;
- Dylai ffi am Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol fod yn rhan o'r ffi gychwynnol am wneud cais;
- Gallai ffioedd ar wahân ar gyfer Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol awgrymu eu bod yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan ddatblygwyr;
- Dylai Cadw hefyd lunio Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol mewn perthynas â materion treftadaeth, a chael ffi am hyn.

Ymateb y Llywodraeth

3.33 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion, a'r cytundeb cyffredinol gan ymatebwyr y dylid codi ffioedd am Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol.

| C8 | A ydych yn cytuno y dylai fod ffi sefydlog am gyflwyno hysbysiad cyn gwneud cais? Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt. |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 2 | 4 | 1 | 3 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 0 | 2 | 0 | 2 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 2 | 0 | 1 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 1 | 1 | 3 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **7** | **10** | **3** | **10** | **30** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **17** | **3** |
| **Canran Gyffredinol** | **85%** | **15%** |

| **C12** | A ydych yn cytuno y dylai'r ffi hon fod yn un sefydlog? (Ffi am Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol)<br>Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt. |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 1 | 2 | 1 | 6 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 0 | 0 | 2 | 1 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 1 | 0 | 2 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 0 | 2 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 0 | 3 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **5** | **3** | **8** | **14** | **30** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **8** | **8** |
| **Canran Gyffredinol** | **50%** | **50%** |

| **C14** | A ydych yn cytuno y dylai'r ffi hon fod yn un sefydlog? (Ffi benderfynu) |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 2 | 1 | 2 | 5 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 0 | 0 | 1 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 0 | 1 | 0 | 3 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 2 | 0 | 1 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 0 | 1 | 4 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **8** | **2** | **4** | **16** | **30** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **10** | **4** |
| **Canran Gyffredinol** | **71%** | **29%** |

Adolygiad ystadegol

3.34 Mewn ymateb i Gwestiwn 8, roedd 85% yn cytuno y dylai fod ffi sefydlog am gyflwyno hysbysiad cyn gwneud cais. Cymysg fu'r ymatebion gan fod deg ymatebydd wedi rhoi ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb.

3.35 Mewn ymateb i Gwestiwn 12, roedd 50% yn cytuno y dylai'r ffi i ACLlau a Cyfoeth Naturiol Cymru am gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol fod yn ffi sefydlog. Cymysg fu'r ymatebion gan fod 50% hefyd yn anghytuno â'r cynnig hwn a nododd 14 o ymatebwyr ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb.

3.36 Mewn ymateb i Gwestiwn 14, roedd 71% yn cytuno y dylai ffi benderfynu fod yn ffi sefydlog. Cymysg fu'r ymatebion gan fod 16 o ymatebwyr wedi rhoi ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb.

Themâu allweddol

*Ffi Sefydlog am Gyflwyno Hysbysiad*

3.37 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylid codi ffi sefydlog am gyflwyno hysbysiad. Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol, fel a ganlyn:

- Gallai'r ffi am gyflwyno hysbysiad amrywio yn dibynnu ar faint, graddfa a lleoliad y datblygiad;
- Dylai ffi sefydlog fod yn ddigon i dalu am gostau mewnbwn ACLl.

*Ffi Sefydlog am Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol*

3.38 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn anghytuno â chodi ffi sefydlog am Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol. Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol, gan gynnwys y canlynol:

- Dylai ffioedd am Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol amrywio yn dibynnu ar amser, maint y datblygiad a chymhlethdod y gwaith dan sylw;
- Mae angen ffioedd amrywiadwy er mwyn adennill costau llawn;
- Dim ond pan fo'r amser a dreulir a'r adnoddau a ddefnyddir yn gyson rhwng prosiectau y mae ffi sefydlog yn briodol;
- Dim ond os caiff ei ddarparu o fewn yr amserlen ragnodedig y dylid talu ffi am Adroddiad ar yr Effaith Leol.

*Ffi Sefydlog am Benderfynu*

3.39 Unwaith eto, nododd ymatebwyr eu hanghytundeb cyffredinol â ffi benderfynu, ac y dylai fod yn sefydlog. Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol, gan gynnwys y canlynol:

- Dylai ffi benderfynu fod yn ddibynnol ar ardal a graddfa datblygiad;
- Dylid ystyried adnoddau mewn ffi benderfynu;
- Dylai ffi benderfynu fod yn hyblyg os yw costau yn debygol o amrywio.

Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 8, 12 ac 14

3.40 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion. Caiff ffioedd sefydlog eu hystyried ymhellach yn strwythur ffioedd Deddf Seilwaith (Cymru) 2024.

| C15 | A ydych yn cytuno y dylai fod ffioedd am ddiwygio neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith?<br>Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt. |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 1 | 4 | 0 | 5 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 1 | 0 | 1 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 1 | 1 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **12** | **8** | **1** | **9** | **30** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **20** | **1** |
| **Canran Gyffredinol** | **95%** | **5%** |

Adolygiad ystadegol

3.41 O blith yr ymatebwyr hynny a atebodd naill ai 'Ydw', 'Ydw (yn amodol ar sylwadau)' neu 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd 95% yn cytuno y dylai fod ffioedd am geisiadau i ddiwygio neu ddirymu. Nododd naw ymatebydd 'Ddim yn gwybod' fel eu hymateb.

Themâu allweddol

3.42 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno â chodi ffioedd am ddiwygio neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith. Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol, gan gynnwys y canlynol:

- Dylai mewnbwn gan ymgyngoreion statudol ac ACLlau gael ei gynnwys mewn ffioedd;
- Dylai unrhyw ffi am ddirymu neu ddiwygio fod yn sefydlog;
- Gallai ffioedd sylweddol neu anghymesur atal ymgeiswyr rhag gwneud cais.

Ymateb y Llywodraeth

3.43 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bwrw ymlaen â ffi am ddiwygio neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ein cynigion ar gyfer ffioedd er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn cwmpasu'r holl gostau.

| C16 | A oes gennych unrhyw sylwadau ar ymgyngoreion statudol yn codi ffioedd?<br>Wrth roi eich ateb, ystyriwch y canlynol:<br>- Y cam yn y broses pryd y dylai corff cyhoeddus godi ffi.<br>- Os telir ffi i gyrff cyhoeddus penodedig, a ddylai fod yn ffi sefydlog?<br>- Os telir ffi i gyrff cyhoeddus penodedig, a ddylid talu'r un ffi i bob corff?<br>Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt. |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Oes** | **Oes (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac oes** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 2 | 5 | 1 | 2 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 0 | 1 | 0 | 2 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 2 | 0 | 1 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 0 | 2 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 2 | 1 | 1 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **7** | **12** | **4** | **7** | **30** |

| | **Oes/Oes (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac oes** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **19** | **4** |
| **Canran Gyffredinol** | **83%** | **17%** |

Adolygiad ystadegol

3.44 O blith yr ymatebwyr hynny a atebodd naill ai 'Oes', 'Oes (yn amodol ar sylwadau)' neu 'Nac oes' i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, gwnaeth 83% ohonynt sylwadau ar ymgyngoreion statudol yn codi ffioedd. Nododd saith ymatebydd 'Ddim yn gwybod' fel eu hymateb.

Themâu allweddol

3.45 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai fod modd i ymgyngoreion statudol adennill costau. Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol, fel a ganlyn:

- Dylai ffioedd a delir ymwneud â pherfformiad neu lefel y gwasanaeth a ddarperir gan ymgyngoreion statudol;
- Gallai ffioedd cychwynnol am wneud cais gynnwys swm sydd wedi'i glustnodi ar gyfer ymgyngoreion statudol;
- Dylai ffioedd i ymgyngoreion statudol fod yn sefydlog;
- Dylid codi ffioedd fesul cam ar adegau amrywiol drwy gydol y broses gwneud cais;
- Dylai lefel y ffioedd adlewyrchu lefel yr adnoddau a ddefnyddir gan bob ymgynghorai statudol.

Ymateb y Llywodraeth

3.46 Mae'r model adennill costau llawn yn seiliedig ar y gallu i ymgyngoreion statudol adennill eu costau, os caiff hyn ei roi ar waith, er mwyn sicrhau bod y system yn effeithlon ac yn effeithiol. Cynigir bwrw ymlaen â'r cynnig i ymgyngoreion statudol godi ffioedd yn ein cynigion ar gyfer ffioedd er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn cwmpasu'r holl gostau.

| C17 | Yn eich barn chi, a ddylid cynnwys unrhyw ffioedd neu gostau eraill yn y broses? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Dylid | Dylid (yn amodol ar sylwadau) | Na ddylid | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 3 | 1 | 6 | 0 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 0 | 1 | 0 | 2 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 1 | 0 | 2 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 0 | 3 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **9** | **4** | **9** | **8** | **30** |

| | Dylid/Dylid (yn amodol ar sylwadau) | Na ddylid |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **13** | **9** |
| **Canran Gyffredinol** | **59%** | **41%** |

Adolygiad ystadegol

3.47 O blith yr ymatebwyr hynny a atebodd naill ai 'Dylid', 'Dylid (yn amodol ar sylwadau)' neu 'Na ddylid' i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd 59% yn cytuno y dylid cynnwys ffioedd neu gostau eraill. Dewisodd 41% o ymatebwyr

yr opsiwn ‘Na ddylid’, a nododd wyth ymatebydd ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb.

Themâu allweddol

3.48 Cyflwynodd ymatebwyr lawer o sylwadau, gan gynnwys y canlynol:

- Costau i ad-dalu pobl leol a chefnogi grwpiau cymunedol;
- Proses adennill costau i ACLlau ar y cam ôl-benderfyniad i gynnwys gorfodi a chyflawni amodau;
- Mae'n rhaid i ffioedd gwmpasu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a ddarperir gan ymgyngoreion statudol, gan gynnwys costau cyfreithiol;
- Sylwadau eraill y tu hwnt i gylch gwaith yr ymgynghoriad ar y broses orfodi a ffyrdd o gynyddu adnoddau a chapasiti'r system gynllunio.

Ymateb y Llywodraeth

3.49 Bwriedir i'r strwythur ffioedd arfaethedig gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag archwilio cais am gydsyniad seilwaith, gan gynnwys costau gwrandawiadau.

| C18 | A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud neu dystiolaeth i'w chyflwyno mewn perthynas â'r ffioedd arfaethedig, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Oes | Oes (yn amodol ar sylwadau) | Nac oes | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 3 | 3 | 4 | 0 | 10 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 0 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 0 | 1 | 0 | 3 | 4 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 1 | 1 | 4 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 0 | 2 | 3 | 7 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **6** | **5** | **8** | **11** | **30** |

| | Oes/Oes (yn amodol ar sylwadau) | Nac oes |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **11** | **8** |
| **Canran Gyffredinol** | **58%** | **42%** |

Adolygiad ystadegol

3.50 O blith yr ymatebwyr hynny a atebodd naill ai ‘Oes’, ‘Oes (yn amodol ar sylwadau)’ neu ‘Nac oes’ i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd gan 58% ohonynt sylwadau neu dystiolaeth bellach i'w cyflwyno mewn perthynas

â'r ffioedd arfaethedig. Cymysg fu'r ymatebion a nododd 11 ymatebydd ‘Ddim yn gwybod’ fel eu hymateb.

Themâu allweddol

3.51 Cafwyd y sylwadau ychwanegol canlynol gan ymatebwyr mewn perthynas â'r strwythur ffioedd:

- Dylai'r strwythur ffioedd fod yn syml ac yn dryloyw;
- Dylid pennu ffioedd ar lefel briodol a'u hadolygu'n rheolaidd;
- Dylai data sy'n gysylltiedig â chostau a ffioedd gwneud cais gael eu cyhoeddi a bod ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt;
- Dylai ACLlau a Llywodraeth Cymru gael mandad i ddefnyddio taflenni amser er mwyn cofnodi'r amser a dreulir;
- Sylwadau eraill y tu hwnt i gylch gwaith yr ymgynghoriad, gan gynnwys trefniadau trosiannol a ffioedd datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol.

Ymateb y Llywodraeth

3.52 Wrth ddatblygu'r strwythur ffioedd, bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd yn syml ac yn dryloyw. Bwriedir hefyd i adnoddau digonol gael eu sicrhau ar gyfer y broses a bydd system adennill costau llawn yn helpu i gyflawni hyn.

| | |
|---|---|
| **C19** | Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai codi ffioedd mewn perthynas â chydsyniad seilwaith yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? |

<u>Trosolwg</u>

3.53 Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr roi unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

3.54 O blith y rhai a ymatebodd, gwnaed sylwadau yn awgrymu y dylai ffioedd gynnwys cost gwasanaethau cyfieithu. Hefyd, dywedodd ACLl fod yn rhaid bod modd cynnal pob cam o'r broses gwneud cais drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.55 Awgrymodd sylw o'r categori Arall y dylai'r cyfle i wneud taliadau yn Gymraeg fod ar gael hefyd.

| | |
|---|---|
| **C20** | Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig i godi ffioedd gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

<u>Trosolwg</u>

3.56 Yn debyg i Gwestiwn 19 yn y papur ymgynghori, ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

3.57 O blith y rhai a ymatebodd, gwnaed sylwadau yn awgrymu y dylai'r rhestr ffioedd fod ar gael yn Gymraeg ac y dylai pob cam o'r broses dalu fod ar gael yn Gymraeg.

<u>Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 19 a 20</u>

3.58 Mae gofyniad cyfreithiol i gyhoeddi dogfennaeth yn ddwyieithog. Bydd ffurflenni cais, deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a gall ymgeiswyr benderfynu ar iaith eu cais a gall yr ymgeisydd ddisgwyl yr un lefel o wasanaeth ni waeth pa iaith y bydd yn ei dewis.

3.59 Bydd lefel y ffioedd yn cynnwys cost gwasanaethau cyfieithu i Weinidogion Cymru.

## ATODIAD A – RHESTR O'R YMATEBWYR YN ÔL CATEGORI

| Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant |
|---|---|
| SP Energy Networks | Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru |
| Dienw | Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol Cymru |
| Y Grid Cenedlaethol | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru |
| Dienw | Solar Energy UK |
| Dienw | |
| Green Gen Cymru | Gwirfoddol |
| RenewableUK Cymru | MotVind UK CIC |
| Statkraft | Dienw |
| EDF | Dienw |
| Network Rail | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| | |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | Arall |
| Yr Awdurdod Glo | Dienw |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Dienw |
| | Heneb : Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | Centrica |
| Cyngor Wrecsam | Dienw |
| Dienw | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Dienw | Glandŵr Cymru |
| | |